LC245

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cig (Pwerau Gorfodi Ehangach) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio chwe set o reoliadau sy'n ymwneud â hylendid cig. Mae'r diwygiadau hyn yn darparu pwerau gorfodi ehangach yng ngoleuni Cyfarwyddiadau'r Cyngor a enwir yn y Nodyn Esboniadol. Caiff effaith y diwygiadau eu hesbonio'n fanwl yn y Nodyn Esboniadol.

Gwnaed Rheoliadau i'r un perwyl ar gyfer Lloegr a'r Alban. Daeth rheoliadau Lloegr i rym ar 1 Mawrth 2000 (OS 2000/225) a rheoliadau'r Alban i rym ar 30 Mehefin 2000 (OSA 2000/171).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi -

> Nid yw'r rheoliadau drafft yn pennu dyddiad dod i rym naill ai yn y pennawd nac yn rheoliad 1(2). Bydd angen mewnosod y dyddiad cyn cyflwyno'r rheoliadau i gael eu gwneud.
>
> Mae'r rhaglith yn y testun Cymraeg wedi hepgor yn anghywir adran 7(2) sydd wedi'i chynnwys yn y testun Saesneg.
>
> Mae'r diwygiadau a wneir i reoliadau 2(2), 3(2), 4(2) a 5(2) oll yn darparu ar gyfer mewnosod y diffiniad o "Yr Asiantaeth". Mae'n ymddangos, er hynny, fod y diffiniad

hwn wedi'i fewnosod ar gyfer Cymru gan OS 2000/656. Ar y sail hwn, nid yw'n briodol i'r rheoliadau presennol honni mewnosod diffiniad dyblyg ym mhob achos.

Ar yr amod bod y pwyntiau uchod yn cael eu cywiro drwy osod Memorandwm Cywiriadau priodol, nid yw'r Pwyllgor yn nodi unrhyw faterion y mae angen gwahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

Er hynny, mae rhai mân bwyntiau y dylid eu cywiro naill ai mewn Memorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu, sef -

- Ym mharagraffau 14 a 27 o'r Nodyn Esboniadol mae'r geiriau "enhanced enforcement" wedi rhedeg i'w gilydd.
- Ym mharagraffau 14 o'r Nodyn Esboniadol mae'r geiriau "rhoi pwerau" wedi rhedeg i'w gilydd.
- Yn nhestun Cymraeg y rhaglith dylid hepgor y cysylltnod ar ôl "Ewrop 1972".
- Ni roddwyd teitl rheoliadau 1995 yn gywir yn rheoliadau 3(1).
- Yn rheoliad 3, rhifwyd paragraff (22) yn anghywir fel paragraff (23).
- Yn nhroednodiadau (dd) ac (f) (y testun Cymraeg) a throednodiadau (f) ac (h) (y testun Saesneg) dylai "1996 1499" fod yn 1996/1499"

**Sylwadau Cyffredinol**

Sylwyd mewn rhai o'r rheoliadau newydd a fewnosodir, fod cyfeiriad penodol yn cael ei gynnwys i ddangos bod y rheoliad o dan sylw yn gweithredu yng Nghymru yn unig (ee. Rheoliad 7A a fewnosodir gan reoliad 2(14)). Er nad yw'r cyfeiriadau hyn yn hanfodol yr ydym o'r farn y gallant fod o gymorth i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth. Er hynny, mewn enghreifftiau eraill megis rheoliad 4A, a fewnosodir gan reoliad 3(7), ni chynhwysir cyfeiriad at Gymru.

Yn ychwanegol, yn rheoliad 23 fel y'i amnewidiwyd gan reoliad 2(25), credir, mewn gwirionedd, y dylai ddarllen fel a ganlyn -

> "On an inspection of any meat at any place in Wales, other than licensed premises, an…", or
>
> "On an inspection of any meat at any place, other than licensed premises, in Wales an…".

Glyn Davies AC
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

15 Mai 2001